Hawdd ei ddeall

Gwybodfan Celf y DU

# Ymweld â'r DU

## Canllaw ar gyfer artistiaid a phobl sy'n gweithio mewn swyddi creadigol



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gwybodfan Celf y DU** gyda chymorth gan Latitude Law, Newfields Law a Tamizdat. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ymweld â'r DU – canllaw fisa ar gyfer artistiaid rhyngwladol a phobl greadigol proffesiynol**'.

**Ionawr 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai bydd angen cymorth arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bydd hi'n anodd deall geiriau mewn **ysgrifen las drwm.** Gallwch chi wirio beth mae'r geiriau mewn glas yn ei olygu ar **dudalen 45**.

Gwybodfan Celf y DU

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Gwybodfan Celf y DU**. I gael mwy o wybodaeth, dyma sut i gysylltu â ni:



**Gwefan:** artsinfopointuk.com/cy

**Ebost:** infopoint@wai.org.uk

**Facebook:** GwybodfanCelfDU

**Twitter:** @GwybodfanCelfDU

Cafodd y ddogfen hon ei throi'n fersiwn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Deall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthon ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Am y canllaw hwn ................................................................ 4**

**Gwladolyn Fisa a Gwladolyn Heb Fod Angen Fisa ...................... 6**

Yr Ardal Deithio Gyffredin (CTA)................................................ 8

**Gweithgareddau di-dâl.........................................................10**

**Sut i wneud cais am fisa i wneud gweithgareddau di-dâl........13**

Gwladolion Heb Fod Angen Fisa ............................................. 13

Gwladolion Fisa .................................................................... 14

**Gweithgareddau am dâl.......................................................16**

Ymrwymiadau Am Dâl a Ganiateir (PPE)................................. 18

Sut i wneud cais am Ymrwymiadau Am Dâl a Ganiateir....... 22

Gwyliau didrwydded ............................................................. 24

Sut i wneud cais am fisa Gwyliau Didrwydded ...................... 25

Gwaith Dros Dro - Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol ........ 26

**Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor yn y DU............................28**

Gwaith Dros Dro - Fisa Gweithiwr Creadigol ........................... 28

Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid .......................................... 30


Trwydded Gweithiwr Cyffiniau .............................................. 32

**Byw yn y DU........................................................................33**

**Cwestiynau ac atebion........................................................35**

**Geiriau anodd .....................................................................45**

# Am y canllaw hwn




Dyma ganllaw i bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau. Mae'n ymwneud â gwneud cais am **fisa** i weithio yn y DU.



Mae **fisa** yn ddogfen swyddogol sy'n eich galluogi i fynd i wlad arall. Mae **fisa** gwaith yn caniatáu i chi weithio yn y wlad honno. Fel arfer, mae **fisa** yn cael ei stampio neu ei gludo i'ch pasbort.



Mae'n gallu bod yn anodd deall gwybodaeth am **fisâu**. Dyna pam rydyn ni wedi gwneud y canllaw hwn.



Efallai bydd angen i chi gael cyngor cyfreithiol am **fisâu**. Er enghraifft, gan gyfreithiwr. Nid cyngor cyfreithiol yw'r canllaw hwn. Mae mwy o wybodaeth yma: [artsinfopointuk.com/cy/ymwadiad-cyfreithiol](artsinfopointuk.com/cy/ymwadiad-cyfreithiol).



Efallai fydd dim angen ychydig o'r wybodaeth yn y canllaw hwn arnoch chi. Ond efallai bydd hi'n ddefnyddiol i chi edrych ar bopeth.





Rydyn ni wedi cynnwys dolenni lle rydych chi'n gallu cael mwy o wybodaeth. Ond dydyn nhw ddim ar ffurf Hawdd eu Deall. Efallai bydd angen cymorth arnoch chi i ddarllen yr wybodaeth ychwanegol.




Hoffen ni wybod beth rydych chi'n feddwl am y canllaw hwn. Rhowch wybod i ni drwy e-bostio: [infopoint@wai.org.uk](mailto:infopoint@wai.org.uk)

# Gwladolyn Fisa a Gwladolyn Heb Fod Angen Fisa



Yn y DU mae ymwelwyr yn cael eu rhestru fel:

- **Gwladolyn Fisa**
- neu **Wladolyn Heb Fod Angen Fisa**



Mae pa un yn dibynnu ar eich **dinasyddiaeth**.

Mae **dinasyddiaeth** yn meddwl yr hawliau sydd gennych chi yn y wlad lle rydych chi'n byw.

## Gwladolyn Fisa



Mae hyn yn golygu pobl sy'n wladolion o wlad y mae angen **fisa** arnyn nhw i ymweld â'r DU am unrhyw reswm.



Bydd y math o **fisa** y bydd ei angen arnoch chi yn dibynnu ar y gwaith rydych chi'n bwriadu ei wneud pan fyddwch chi yn y DU.




Dyma restr o’r gwledydd lle bydd angen **fisa** i ymweld â’r DU: [www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-visitor-visa-national-list](www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-visitor-visa-national-list)

## Gwladolyn Heb Fod Angen Fisa



Mae hyn yn golygu pobl sy’n wladolion o wlad lle does dim angen **fisa** ar gyfer gwyliau yn y DU.



Neu ar gyfer **rhai** gweithgareddau sy’n ymwneud â’r gwaith.



Os **nad** yw’ch gwlad chi wedi ei rhestri yn y ddolen uchod, dyma eich grŵp chi.



Bydd angen **fisa** gwaith ar y rhan fwyaf o’r bobl yn y grŵp hwn os ydyn nhw’n mynd i weithio yn y DU.



Ond bydd y math o **fisa** y bydd ei angen arnyn nhw yn dibynnu ar beth y byddan nhw’n wneud.

# Yr Ardal Deithio Gyffredin (CTA)



Os ydych chi'n byw yn Iwerddon, Ynys Manaw, Jersey neu Guernsey does dim angen **fisa** arnoch chi i fyw neu weithio yn y DU.




Ond efallai y bydd mwy o reolau i'w dilyn ar gyfer rhai mathau o **fisa**. Er enghraifft y llwybr **Ymwelwyr Arferol** a'r **Fisa Ymrwymiadau Am Dâl a Ganiateir**.

Er enghraift, os ydych chi'n teithio o wlad arall i Iwerddon ac yna i'r DU, efallai na fyddwch chi'n gweld staff ar y ffin i stampio'ch pasbort.

Ar gyfer y llwybr Ymwelydd Safonol a'r fisa Ymrwymiadau am Dâl a Ganiateir, mae gennych ganiatâd arbennig i ddod i mewn i'r DU yn y sefyllfa hon – gelwir hyn yn 'caniatâd tybiedig'.




Mae mwy o wybodaeth am yr **Ardal Deithio Gyffredin (CTA)** yma: [www.gov.uk/government/publications/common-travel-area-guidance](www.gov.uk/government/publications/common-travel-area-guidance)



Dylech chi wybod erbyn hyn a ydych chi'n:

- **Wladolyn Fisa**
- **Gwladolyn Heb Fod Angen Fisa**
- neu a ydych chi'n dod o'r **Ardal Deithio Gyffredin**.



Nawr mae angen i chi edrych ar ba un o'r gweithgareddau hyn sy'n disgrifio beth fyddwch chi'n wneud yn y DU orau:

- Gweithgareddau di-dâl



- Gweithgareddau am dâl
- Byw a gweithio yn y DU



Byddwn ni'n eu disgrifio nhw'n fwy yn yr adran nesaf.

# Gweithgareddau di-dâl



Er enghraifft, efallai bod cyfarfod gyda chi yn y DU. Neu efallai bod perfformiad gyda chi fyddwch chi ddim yn cael eich talu amdano.



Bydd angen cynnig swydd ar y rhan fwyaf o bobl cyn teithio i'r DU. Ond mae rhai gweithgareddau yn cael eu caniatáu os ydyn nhw'n **ddi-dâl**.




Efallai bydd hi'n bosib i rai o'ch costau gael eu talu o dan y **fisa** hwn. Er enghraifft, teithio neu lety.

**Dyma'r pethau rydych chi'n gallu eu gwneud fel ymwelydd di-dâl:**



- Mynd i gynadleddau, cyfarfodydd, a chyfweliadau.




- Llofnodi cytundebau neu siarad amdanyn nhw.



- Rhoi anerchiadau, ar yr amod fyddwch chi ddim yn ennill arian o wneud hyn.



- Mynychu ffeiriau masnach. Ar yr amod does dim byd yn cael ei werthu.



- Ymweld â safleoedd ar gyfer gwaith posib a chael gwybodaeth.



- Rhoi perfformiadau fel unigolion neu fel rhan o grŵp.



- Cymryd rhan mewn cystadlaethau neu glyweliadau, a hyrwyddo beth rydych chi'n ei wneud.




Bydd hi'n bosib i'ch staff ddod gyda chi fel **ymwelydd arferol** os ydyn nhw'n mynd i'r un digwyddiad. Bydd rhaid iddyn nhw ddilyn yr un rheolau â chi.



**Ymwelydd arferol** yw'r ffordd arferol mae pobl yn teithio i'r DU ar gyfer teithio a gwyliau arferol.

# Sut i wneud cais am fisa i wneud gweithgareddau di-dâl

## Gwladolion Heb Fod Angen Fisa




Rydych chi'n gallu dod i mewn i'r DU am hyd at 6 mis heb **fisa** na ffioedd.




Rhaid i artistiaid wneud cais am **Awdurdodiad Teithio Electronig (ETA)** cyn iddyn nhw deithio. Mae hyn yn meddwl pobl o'r rhan fwyaf o wledydd.




Fe fydd yr ETA yn costio £16 ac yn gadael iddyn nhw ymweld â'r DU gymaint o weithiau ag maen nhw eisiau am 2 flynedd.



Mae mwy o wybodaeth am **ETA** ar gael yma: [www.gov.uk/guidance/apply-for-an-electronic-travel-authorisation-eta](www.gov.uk/guidance/apply-for-an-electronic-travel-authorisation-eta)

# Gwladolion Fisa



Mae rhaid i chi wneud cais am **fisa** cyn ymweld â'r DU.



Mae'r gost yn dechrau o £127.

Bydd angen y dogfennau hyn ar wladolion **fisa** pan fyddan nhw'n ymweld â'r DU:



- Llythyr croeso gan y sefydliad y byddwch yn gwneud ag ef.




- Prawf eich bod chi'n gallu cynnal eich hun. Er enghraifft, cyfriflen banc.




- Prawf eich bod chi’n gallu fforddio mynd yn ôl adref. Mae Llywodraeth y DU yn dweud mai’r peth gorau yw peidio â defnyddio tocyn dychwelyd fel prawf o hyn.



Mae Llywodraeth y DU yn ceisio gwneud penderfyniadau ar geisiadau am **fisa** o fewn 3 wythnos. Ond mae’n gallu cymryd mwy o amser.



Dylech chi wneud yn siŵr eich bod chi’n rhoi digon o amser i wneud eich cais am **fisa**.



Mae system gyda rhai gwledydd lle maen nhw’n gallu delio â cheisiadau yn gyflym.



Mae mwy o wybodaeth am hyn yma: [www.gov.uk/guidance/visa-decision-waiting-times-applications-outside-the-uk](www.gov.uk/guidance/visa-decision-waiting-times-applications-outside-the-uk)

# Gweithgareddau am dâl



Mae hyn ar gyfer pobl sydd am ddod i'r DU i weithio a chael eu talu. Wedyn gadael.

Mae 6 phrif ffordd mae rhywun yn gallu gwneud gwaith am dâl. Dyma nhw:



1. Fisa **Ymrwymiad am Dâl a Ganiateir (PPE)** - Sy'n gadael i chi aros hyd at 6 mis. Rhaid i chi wneud eich gwaith yn ystod y 30 diwrnod cyntaf ar ôl i chi gyrraedd.



2. **Gwyliau Didrwydded (PFF)** - Sy'n gadael i chi aros hyd at 6 mis



3. **Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol** (ar gyfer Gwladolion Heb Fod Angen Fisa yn unig) - Sy'n gadael i chi aros hyd at 3 mis



4. **Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol**



5. Fisa **Cynllun Symudedd Ieuenctid**




**6. Trwydded Gweithiwr Cyffiniau**




Mae rhifau 1, 2 a 3 yn dda ar gyfer darnau byr o waith a theithiau. Ac mae'n gallu bod yn rhwyddach ac yn rhatach i'w cael nhw.



Dydy'r **Consesiwn** Fisa **Gwaith Creadigol (Gwaith Dros Dro) ddim** ar gyfer **Gwladolion** Fisa.




Ond mae **Gwladolion Heb Fod Angen** Fisa yn gallu ei ddefnyddio am hyd at 3 mis.





Mae rhifau 4, 5 a 6 yn dda ar gyfer darnau o waith mwy hir dymor.

# Ymrwymiadau Am Dâl a Ganiateir (PPE)



Mae hyn ar gyfer teithiau tymor byr.




Efallai bod pobl yn dod i gynnal digwyddiad, neu nifer o ddigwyddiadau am hyd at 6 mis. Mae'n rhaid i chi wneud y gwaith â thâl yn ystod y 30 diwrnod cyntaf ar ôl cyrraedd.



Mae hyn ar gyfer artistiaid sydd wedi rhoi cychwyn cadarn ar eu gwaith yn barod.




Mae rhaid i chi fod wedi cynllunio'r gweithgaredd cyn i chi ddod.



Ac mae rhaid i'r grŵp yn y DU sy'n trefnu'r gwaith anfon llythyr atoch chi yn eich gwahodd chi i gymryd rhan.

**Dylai'r llythyr ddweud:**



- Pryd a lle mae'r gweithgaredd.
- Sut mae'n gysylltiedig â'r gwaith rydych chi'n ei wneud.
- Ble fyddwch chi'n aros.

Hefyd, dylai artistiaid roi gwybodaeth at ei gilydd am:



- eu gwaith
- beth mae pobl yn eu gwlad yn feddwl amdanyn nhw




- faint o arian maen nhw'n ei ennill
- unrhyw waith arall sydd gyda nhw tu allan i'r DU



- beth maen nhw am ei wneud yn y DU.

Dyma’r rheolau y bydd angen i chi eu dilyn ar gyfer **Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir**:




- Mae rhaid i chi fod yn 18 oed o leiaf.




- Mae rhaid eich bod chi’n ymweld â’r DU am ddim mwy nag 6 mis. Mae’n rhaid i chi wneud y gwaith â thâl o fewn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl i chi gyrraedd.



- Mae rhaid bod digon o arian gyda chi i gynnal eich hun. Ddylech chi ddim dibynnu ar **arian cyhoeddus** i gynnal eich hun.

Mae **arian cyhoeddus** yn golygu pethau fel budd-daliadau a grantiau. Er enghraifft, yr arian mae’r llywodraeth yn ei roi i chi.



- Mae rhaid bod digon o arian gyda chi i dalu am eich taith adref.



- Pan fyddwch chi'n gadael, dydych chi ddim yn gallu teithio drwy Iwerddon, Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel.



Rydych chi'n gallu gweld mwy o wybodaeth yma: www.gov.uk/permitted-paid-engagement-visitor

# Sut i wneud cais am Ymrwymiadau Am Dâl a Ganiateir

## Gwladolion Fisa



Rhaid gwneud cais am fisa ymwelydd safonol cyn ymweld â'r DU. O'u mamwlad, neu'r wlad lle maen nhw'n byw.



Fe fydd yn costio £127. Ond efallai y bydd rhai ffioedd eraill am wasanaethau yn y ganolfan ymgeisio.



Mae llywodraeth y DU yn ceisio penderfynu ar geisiadau mewn 3 wythnos. Ond maen gallu cymryd mwy o amser. Rydych chi'n gallu gwneud cais 3 mis cyn i chi deithio.

# Gwladolion Heb Fod Angen Fisa




Does dim angen i chi wneud cais am fisa. Fe fyddwch chi angen Awdurdodiad Teithio Electronig.



Cadwch eich dogfennau'n barod rhag ofn bod Swyddog Ffiniau eisiau eu gweld.




Os ydy hynny'n cael ei ganiatau, rydych chi'n gallu mynd i mewn drwy ddefnyddio **eGate.**

Peiriannau sy'n gwirio'ch pasbort yw **eGates**.

# Gwyliau didrwydded



Mae hyn ar gyfer **ymweliadau gwaith tymor byr mewn rhai gwyliau** yn y DU.




Mae artistiaid yn gallu cymryd rhan mewn 1 digwyddiad neu fwy ar y rhestr o wyliau Didrwydded.



Bydd angen llythyr croeso arnyn nhw gan sefydliad yn y DU neu ŵyl sydd ar y rhestr o Wyliau Didrwydded. Bydd y llythyr yn dweud:



- Beth yw'r gweithgaredd




- Manylion am unrhyw gontract sydd gyda chi ar gyfer y gwaith




- Gwybodaeth am sut maen nhw'n gallu fforddio bod yn y DU a theithio adref.

# Sut i wneud cais am fisa Gwyliau Didrwydded

## Gwladolion Fisa



Mae rhaid i chi wneud cais am **fisa Ymwelydd Arferol** cyn teithio i'r DU.



Mae Llywodraeth y DU yn ceisio gwneud penderfyniad ar geisiadau mewn 3 wythnos. Ond mae'n gallu cymryd mwy o amser.

## Gwladolion Heb Fod Angen Fisa




Does dim angen i chi wneud cais am fisa. Fe fyddwch chi angen Awdurdodiad Teithio Electronig.



Os ydy hynny'n cael ei ganiatau, rydych chi'n gallu mynd i mewn drwy ddefnyddio **eGate.**




I weld rhestr o'r gwyliau didrwydded ewch yma: [www.gov.uk/guidance/immigration-rules/-immigration-rules-appendix-visitor-permit-free-festival-list](www.gov.uk/guidance/immigration-rules/-immigration-rules-appendix-visitor-permit-free-festival-list)

# Gwaith Dros Dro - Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol



Mae hyn ar gyfer:


- **Gwladolion Heb Fod Angen Fisa**
- Teithiau byr dymor yn y DU.



Does dim angen i chi wneud cais am fisa.
Fe fyddwch chi angen **Awdurdodiad Teithio Electronig**. Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn dilyn y pethau yma:



- Mae rhaid i chi fod yn **Wladolyn Heb Fod Angen Fisa**





- Cyfanswm hyd y gweithgaredd yw 3 mis neu lai o'r dyddiad mae'r **fisa** yn cael ei roi i chi



- Mae sefydliad gyda chi yn y DU a fydd yn **noddi'r fisa**. Mae rhaid i'r sefydliad yn y DU fod wedi'i gofrestru a bod â **Thrwydded Noddwr y Swyddfa Gartref**.

> Mae **noddwr** yn golygu bod y sefydliad yn gyfrifol amdanoch chi yn ystod eich cyfnod yn y DU.




- Mae rhaid i'r sefydliad sy'n **noddi** yn y DU roi **Tystysgrif Nawdd** i chi. Weithiau bydd mwy nag 1 **noddwr**.



Efallai bydd hi'n bosib gwneud rhywfaint o waith arall tra byddwch chi yn y DU ar y **fisa** hwn. Hyd at 20 awr yr wythnos.



I weld mwy o wybodaeth ewch yma: [www.gov.uk/government/publications/skilled-worker-visa-immigration-salary-list](www.gov.uk/government/publications/skilled-worker-visa-immigration-salary-list)



Os ydych chi'n dod i'r DU drwy Iwerddon o dan y **Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol** mae rhaid i chi wneud cais am rywbeth o'r enw **caniatâd o bell**.




Mae rhaid i chi wneud hyn **o leiaf 72 awr cyn** i chi gyrraedd y DU.



Mae rhagor o wybodaeth am y fisa ar gael yma: [www.gov.uk/creative-worker-visa/creative-worker-concession](www.gov.uk/creative-worker-visa/creative-worker-concession)

# Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor yn y DU

## Gwaith Dros Dro - Fisa Gweithiwr Creadigol





Mae hyn ar gyfer gwaith am dâl yn y DU dros gyfnod hirach.

Mae'n gallu bod yn ddefnyddiol ar gyfer swyddi fel:



- Dawnswyr
- Cerddorion
- Actorion




Mae'n caniatáu i bobl weithio yn y DU am hyd at 12 mis. Efallai y byddwch chi'n gallu gwneud cais i aros am hyd at 2 flynedd.




Efallai y bydd yn bosibl gwneud rhywfaint o waith arall tra yn y DU ar y fisa yma hyd at 20 awr yr wythnos.

**I gael y fisa hwn mae rhaid i chi:**



- Gael sefydliad yn y DU i'ch **noddi** chi.



- Cael **Tystysgrif Nawdd** gan eich **noddwr**. Bydd hyn yn dweud beth fyddwch chi'n ei wneud. A pham rydych chi am gael y math hwn o **fisa**.




- Gwneud cais am **fisa**, gyda'r wybodaeth o'r **Dystysgrif Nawdd**. Mae rhaid i chi anfon eich cais i'r wlad rydych chi'n byw ynddi neu'n dod ohoni.




Rhaid i chi brofi bod gennych chi o leiaf £1,270 am 28 diwrnod. Oni bai bod eich noddwr wedi addo eich cefnogi, ac mae hyn ar eich **Tystysgrif Nawdd**.




Y ffi ar gyfer y **fisa** yma ydy £319. Efallai bydd ffioedd eraill hefyd.





Mae hyn yn gallu bod yn dda i bobl sy'n gweithio yn y DU am fwy na 3 mis. Ond does dim amser byrraf mae'n rhaid i chi aros.

# Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid




Efallai byddwch chi'n gallu aros am waith am dâl am hyd at 2 flynedd.




Os ydych chi'n dod o Awstralia, Canada neu Seland Newydd, rydych chi'n gallu aros yn hirach. Rydych chi'n gallu ychwanegu hyd at 1 flwyddyn arall i'ch fisa tra yn y DU.



**I gael y fisa yma rhaid i chi:**

- Bod yn 18 i 30 oed. Neu 18 i 35 oed i rai gwledydd.




- Cael o leiaf £2,530 mewn cynilion.



Os ydych chi rhwng 18 a 35 oed, rydych chi'n gallu gwneud cais os ydych chi'n dod o:

- Awstralia
- Canada
- Seland Newydd
- De Corea



Os ydych chi rhwng 18 a 30 oed, rydych chi'n gallu gwneud cais os ydych chi'n dod o:

- Andorra
- Gwlad yr Ia
- India
- Siapan
- Monaco
- San Marino
- Wrwgwai
- Hong Kong, os oes gennych chi basbort SAR
- Taiwan

Rydych chi hefyd yn gallu gwneud cais os ydych chi rhwng 18 a 30 oed ac yn:

- Dinesydd Tramor Prydain
- Dinesydd Tiriogaethau Tramor Prydain
- Gwladolyn Prydeinig Tramor




Mae yna fisa arbennig ar gyfer pobl o India. Ei enw ydy **Cynllun Gweithwyr Proffesiynol Ifanc India**. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: [www.gov.uk/guidance/india-young-professionals-scheme-visa-ballot-system](https://www.gov.uk/guidance/india-young-professionals-scheme-visa-ballot-system)




Bydd yn costio £319 i wneud cais am y **fisa** hwn. Ac efallai bydd taliadau eraill.

# Trwydded Gweithiwr Cyffiniau



Mae hyn ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y DU ond sy'n dod o wlad Ewropeaidd.




Rydych chi'n gallu gwneud cais i weithio yn y DU am hyd at 5 mlynedd gyda'r **fisa** hwn.

**I gael y fisa hwn mae rhaid i chi:**



- Fod yn wladolyn yr UE neu ddod o'r Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein
- Byw tu allan i'r DU yn bennaf




- Bod wedi gweithio yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020
- ac mae rhaid i chi fod wedi perfformio gwaith yn y DU yn y 12 mis cyn gwneud cais.




Does dim ffi i wneud cais am y math hwn o **fisa**.

# Byw yn y DU



Mae hyn ar gyfer artistiaid sydd angen teithio i'r DU i fyw **a** gweithio.



Mae hyn yn dda i artistiaid sydd am fod yn y DU am amser hir.



Mae 2 fath o **fisa** yn yr adran hon.

## Fisa Talent Fyd-eang



Mae hyn ar gyfer artistiaid gorau mewn dawns, cerddoriaeth, theatr, llyfrau, ffilm a theledu.




Mae'r **fisa** hwn yn gallu para am hyd at 5 mlynedd.

# Fisa Gweithiwr Medrus



Mae hyn ar gyfer pobl sydd am gael eu cyflogi yn y DU. Y cyflogwr fydd eu **noddwr** nhw.




Mae rhaid i'r swydd ofyn am sgiliau penodol. Ac mae rhaid iddi fod yn waith am dâl.




Mae'r **fisa** hwn yn gallu para am hyd at 5 mlynedd.




Mae aelodau'r teulu yn gallu gwneud cais am fisa sy'n para yr un faint o amser.



Ewch yma i gael mwy o wybodaeth:
[www.gov.uk/government/organisations/uk-visas-and-immigration](www.gov.uk/government/organisations/uk-visas-and-immigration)

# Cwestiynau ac atebion




**Dyma rai atebion i gwestiynau mae llawer o bobl yn eu gofyn.**

## Gweithgareddau Di-dâl



**Cwestiwn:**

Rwy'n **Wladolyn Fisa**. Ble ydw i'n gallu gwneud cais am **fisa ymwelydd arferol**? A pha ddogfennau y bydd eu hangen arna i?

**Ateb:**

Rydych chi'n gallu gwneud cais:



- Mewn **canolfan ymgeisio** am **fisa**.
- Mewn lle o'r enw **Cenhadaeth Ddiplomyddol Prydain**.
- Neu mewn lle o'r enw **canolfan gonswl dramor**.




Mae mwy o wybodaeth yma: www.gov.uk/government/publications/where-to-apply-ecb05



**Cwestiwn:**

Beth mae 'staff cymorth' yn ei olygu? Pa ddogfennau sydd eu hangen arnyn nhw?


**Ateb:**




Staff sy'n cael eu cyflogi i weithio ar ddigwyddiad mewn gwlad arall.



Mae'n syniad da cael llythyr sydd wedi cael ei ysgrifennu gan y cyflogwr.




Dylai e roi gwybodaeth am **delerau ac amodau cyflogaeth**. Er enghraifft, faint o oriau y mae'r person yn eu gwneud a'r hyn maen nhw'n ei wneud.

# Ymrwymiadau Am Dâl a Ganiateir



**Cwestiwn:**

Beth mae angen i fi ei wneud pan fydda i'n cyrraedd y DU?



**Ateb:**

Os ydych chi'n ddinesydd fisa, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod staff y Llu Ffiniau yn stampio'ch pasbort.



Gwnewch yn siŵr bod eich holl ddogfennau yn barod i'w dangos os ydy'r swyddog yn gofyn.



Os ydych chi'n ddinesydd heb fisa, does dim angen stamp arnoch chi ar y Ffin. Os ydy hynny'n cael ei ganiatau, rydych chi'n gallu mynd i mewn drwy ddefnyddio **eGate**.



**Cwestiwn:**

Ydw i’n gallu gwneud mwy nag un swydd gyda gwahanol gwmnïau? Fel taith o gwmpas lleoedd?

**Ateb:**




Ydych, rydych chi’n gallu gwneud mwy nag un swydd, cyn belled â bod yr holl swyddi’n cael eu gwneud o fewn 30 diwrnod ar ôl i chi gyrraedd y DU.




Rhaid i chi ddilyn y rheolau am y mathau o swyddi rydych chi’n gallu eu gwneud.



**Cwestiwn:**

Ydy fy staff yn gallu gwneud cais am y math hwn o **fisa** hefyd?



**Ateb:**

Ydyn. Ar yr amod eu bod nhw’n cefnogi’r un digwyddiad. A’u bod nhw wedi’u cyflogi i weithio i chi tu allan i’r DU.




**Cwestiwn:**

Ydy rhywun yn gallu gwneud Ymrwymiadau â Thâl sy’n cael eu Caniatau (PPE) a chaniatad gwyliau am ddim mewn un ymweliad?




**Ateb:**

Ydy, ond mae’n rhaid gwneud yr holl waith PPE o fewn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl i chi gyrraedd y DU.




Mae’n rhaid i chi ddweud pa waith fyddwch chi’n ei wneud pan fyddwch chi yn gwneud cais. Mae angen i chi ddangos gwahoddiad ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau y byddwch chi yn cymryd rhan ynddyn nhw.



**Cwestiwn:**

Oes terfyn ar y nifer o weithiau rydw i’n gallu ymweld â’r DU mewn blwyddyn?



**Ateb:**

Does dim terfyn, ond ddylai pob ymweliad ddim fod yn hirach na 6 mis. Ddylech chi ddim treulio mwy na hanner eich amser yma.

# Gwyliau Didrwydded (PFF)



**Cwestiwn:**

Pa wyliau sy'n ddidrwydded?



**Ateb:**

Dyma restr o'r holl wyliau di-drwydded: www.gov.uk/guidance/immigration-rules/-immigration-rules-appendix-visitor-permit-free-festival-list



**Cwestiwn:**

Beth ydw i'n wneud pan fydda i'n cyrraedd y DU?



**Ateb:**

Os ydych chi'n cael caniatad, rydych chi'n gallu defnyddio'r **eGates** pan fyddwch chi'n cyrraedd.



Os nad ydych chi'n gallu defnyddio'r **eGates**, mae'n rhaid i chi siarad â swyddog Llu'r Ffiniau a dangos eich pasbort a'ch dogfennau. Rhaid i'ch pasbort fod yn ddilys ar gyfer eich arhosiad cyfan.



**Cwestiwn:**

Ydy fy staff yn gallu defnyddio'r math hwn o **fisa**?



**Ateb:**

Nac ydyn. Maen nhw'n dod fel **Ymwelydd Arferol**. Mae rhaid eu bod nhw'n mynd i'r un ŵyl. Ac mae rhaid iddyn nhw gael gweithio i chi y tu allan i'r DU.



**Cwestiwn:**


Oes terfyn ar y nifer o weithiau rydw i'n gallu ymweld â'r DU mewn blwyddyn?



**Ateb:**


Does dim terfyn, ond ddylai pob ymweliad ddim fod yn hirach na 6 mis. Ddylech chi ddim treulio mwy na hanner eich amser yma.

# Gwaith Dros Dro - Fisa Gweithiwr Creadigol



**Cwestiwn:**

Beth ydw i'n gallu ei wneud ar **Fisa** **Gwaith Dros Dro - Gweithiwr Creadigol**?




**Ateb:**

- Rydych chi'n gallu aros am hyd at 12 mis.



- Gweithio i'ch **noddwr** gan wneud y swydd sydd wedi'i nodi yn y **Dystysgrif Nawdd**.




- Efallai byddwch chi'n gallu gwneud swydd arall am hyd at 20 awr yr wythnos.



- Rydych chi'n gallu gadael y DU a dod yn ôl.



- Rydych chi'n gallu dod ag aelodau o'ch teulu gyda chi.




**Cwestiwn:**

Sut ydw i'n gwneud cais am **Fisa** Gwaith Dros Dro - Gweithiwr Creadigol?



**Ateb:**

Mae rhaid i chi gael **Tystysgrif Nawdd** ac yna gwneud cais am y **fisa** hwn ar-lein.



Mae rhaid i'r sefydliad sy'n rhoi **Tystysgrif Nawdd** i chi gael ei ystyried yn **Noddwr Trwyddedig**.



Dyma restr o'r sefydliadau hyn: www.gov.uk/government/publications/register-of-licensed-sponsors-workers



Rydych chi'n gallu gwneud cais am y **fisa** hwn 3 wythnos cyn y dyddiad ar y **Dystysgrif Nawdd**.



Fel arfer, mae'n cymryd tua 3 wythnos i Lywodraeth y DU ddelio â'r **fisa** hwn.



Rydych chi’n gallu cysylltu ag adran **Fisâu a** Mewnfudo’r DU am gyngor hefyd. Ond mae oedi’n bosib.



**Gwefan:** www.gov.uk/contact-ukvi-inside-outside-uk



Mae ffurflen ar-lein rydych chi’n gallu ei defnyddio i gael cyngor hefyd. Mae hon yn costio £2.74. Cliciwch yma am hyn: https://ukvi.mysecurepay.co.uk/Home

# Geiriau anodd

## Arian cyhoeddus

Mae hyn yn golygu pethau fel budd-daliadau a grantiau. Er enghraifft, arian mae’r llywodraeth yn ei roi i chi.

## Dinasyddiaeth

Mae dinasyddiaeth yn meddwl yr hawliau sydd gennych chi yn y wlad lle rydych chi’n byw.

## eGates

Peiriannau sy’n gwirio’ch pasbort yw eGates.

## Fisa

Fel arfer, mae fisa yn stamp ar basbort neu ddogfen sy’n golygu bod person yn cael bod mewn gwlad. Mae fisa gwaith yn caniatáu i chi weithio yn y wlad honno.

## Noddwr

Mae noddwr yn golygu’r sefydliad sy’n gyfrifol amdanoch chi yn ystod eich cyfnod yn y DU.